# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd

# 2017-20

# (DRAFFT IONAWR 2017)

1. **Gweledigaeth:**

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

Ein hamcan yw sicrhau gwell mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ar draws rhanbarth y Gogledd sy'n dymuno datblygu, cryfhau neu gynnal eu sgiliau dwyieithog.

*"Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle."*
*(Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, LlC)*

**Nod:**

Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

**Amcanion:**

Er mwyn gwireddu'r rhaglen uchelgeisiol hon, disgwylir i bob sefydliad roi sylw i'r materion a ganlyn.

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.
- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.
- Yn CA3 a CA4, defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad blaenorol i sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu.
- Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl ac yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, manteision economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.
- Datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol fel eu bod yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Bydd y Cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn o safbwynt Y Gymraeg fel iaith ac fel cyfrwng gan eu gosod fel nodau clir i'n rhaglen waith tair blynedd.

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3.
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA3 i CA4.
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen gan arfogi ein penaethiaid a hyfforddi ein gweithlu i ymgyrraedd yn llawn at nod y Cynllun.
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd.
- Prif ffrydio gwaith Y Siarter Iaith yng Ngwynedd i waith craidd Y Cyngor.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol pobl ifanc yn ein hysgolion uwchradd trwy sefydlu a datblygu cynllun tebyg i Siarter Iaith yr ysgolion cynradd.
- Cefnogi ac arwain ein hysgolion i symud ar hyd y continiwwm ieithyddol.

**Cysylltiadau â Pholisïau Llywodraeth Cymru:**

Bydd y cynllun hwn hefyd yn ymgorffori polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru:

- **Strategaeth drafft Llywodraeth Cymru 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'** – rydym yn ymrwymo i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy'r Gymraeg. Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yn ysgolion cynradd Gwynedd mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith arloesol yng Ngwynedd a phri ffrydio gwaith y Siarter Iaith yng Ngwynedd i waith craidd y Cyngor. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Iaith i fod yn rhaglen genedlaethol fydd yn rhan allweddol o fframwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu.

- **Ailysgrifennu'r dyfodol** - rydym yn ymrwymo i'r egwyddor o godi dyhead a chyrhaeddiad yn ein hysgolion. Drwy ddefnydd priodol ac effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, byddwn yn rhoi cymorth priodol i ddileu'r rhwystrau i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

- **Dyfodol llwyddiannus** - mae'r Athro Donaldson wedi tynnu sylw at gryfderau o fewn system addysg Cymru, a'r ymrwymiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Ein nod yw sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

  **Cenedlaethau'r dyfodol** - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – mae'r saith o nodau llesiant yn dangos y math o Gymru rydym eisiau ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf, i weithio tuag ati.

Byddwn fel Awdurdod yn ymrwymo'n llawn i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel rhan annatod o bopeth a wnawn a hynny er mwyn cyflawni'r nodau.

**Prif amcanion y Gweithgor Iaith:**

- Rhoi cyfeiriad strategol a chynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu'r Siarter Iaith.
- Monitro gweithrediad Y Siarter Iaith.
- Derbyn adroddiadau a data perfformiad mewn perthynas â'r Siarter Iaith.
- Rhoi cyfeiriad strategol a chynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).
- Monitro gweithrediad y CSGA.

- Craffu ar ddeilliannau a thargedau'r CSGA.
- Herio perfformiad adroddiadau cynnydd y prosiectau hynny sydd yn y CSGA.
- Monitro Cynllun Busnes y CSGA yn chwarterol.
- Rhannu arferion da.

O wneud hyn yn llwyddiannus yn ystod y tair blynedd nesaf rhagwelir y gall y gyfundrefn addysg gyflawn gyfrannu at ddatblygiad Y Gymraeg (iaith a chyfrwng) ac ansawdd addysg a phrofiadau ein plant a'n pobl ifanc.

**2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Oherwydd natur ieithyddol yr ysgolion, mae'r Awdurdod yn cyflawni'r ddyletswydd statudol ac yn cyd ymffurfio â'r Mesur Teithio.

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r ysgolion. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol.

3. Sut byddwn yn cyflawni deilliannau 1-7.

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Targedau:
Canran a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen:

| Sefyllfa gyfredol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 98.9% | 99.1% | 99.2% | 99.3% |

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn:

- Sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg - sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Rhoi ffocws ar rymuso arferion ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen.
- Targedu'r ysgolion hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi iaith.
- Parhau i fod yn weithredol o ran dangos gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith.

Datganiad cefnogol:

Mae 93 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r ysgolion. Nid yw'r Sir

yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog.

Er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Blynyddoedd Cynnar, byddwn yn parhau i osod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

Yn Ebrill 2014, lluniwyd asesiad digonolrwydd cynhwysfawr o ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd. Roedd yr asesiad yn dangos bod y gyfran helaethaf o ddarpariaethau gofal plant yn wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, neu Gymraeg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Saesneg (90%). Yn ogystal, nododd 13% o'r rhieni a'r gofalwyr a ymatebodd i'r holiadur eu dymuniad i weld cynnydd yn y ddarpariaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. *Bydd gwybodaeth am yr asesiad digonolrwydd diweddaraf ar gael yn 2017.*

Bydd yr Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. Bydd yr holl leoliadau, gan gynnwys y rhai gan y mudiadau gwirfoddol, yn cael eu monitro'n rheolaidd. Rhan o'r monitro hwnnw fydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Iaith y Sir.

Ceir tîm o athrawon cefnogi o fewn y cynllun Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg a phwysleisir yr angen i osod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn ystod y Blynyddoedd Cynnar. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr asesiad sylfaen yn rhoi gwybodaeth gychwynnol i ysgol ar sefyllfa ieithyddol pob plentyn. Dyma gam pwysig o safbwynt cynllunio dilyniant. Bydd y tîm hefyd yn cynnig rhaglen o hyfforddiant a chynhyrchu adnoddau i gefnogi'r lleoliadau i ddatblygu patrymau iaith Cymraeg.

Bydd yr holl asiantaethau sy'n ynghlwm â Dechrau'n Deg yn sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall manteision dwyieithrwydd ac yn hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn eu gwaith wrth weithio gyda'r plant a'u teuluoedd e.e. Tîm Cefnogi Teulu, Swyddogion Chwarae a Datblygiad Cynnar, Tîm Iechyd, Therapydd Iaith Dechrau'n Deg a staff y lleoliadau gofal plant i gyd.

Mae'r Mudiad Meithrin yn gyson yn darparu gwybodaeth yn ddwyieithog am addysg Gymraeg i rieni ac maent hefyd yn rhan o Weithgor Iaith yr Awdurdod. Drwy'r Gweithgor, rhennir gwybodaeth allweddol am waith y Mudiad ynghyd â'r darlun yng Ngwynedd.

Yn Y Cyfnod Sylfaen, bydd yr ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd Y Cyfnod Sylfaen. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae'r niferoedd sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn dda.

Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion cynradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Yn sgil hyn, bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith.

Mae tri ffederasiwn ffuriol yn Sir sef Ysgolion Dyffryn Dulas/Pennal, Ysgolion Glanadda/Coedmawr ac Ysgolion Abercaseg / Penybryn.

Mae fframwaith a sylfaen strategol a fabwysiadwyd ar gyfer ad-drefnu Ysgolion o fewn Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn gosod yr Iaith Gymraeg fel un o'r prif egwyddorion ac

ystyriaethau wrth lunio cynigion. Yn ystod unrhyw broses o ad-drefnu, mae'n ofynnol i'r Cyngor i gynnal asesiad ardrawiad ieithyddol yn yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio. Mae'r asesiad yn amlinellu'r sefyllfa ynglŷn â'r prif ystyriaethau iaith sy'n ymwneud ag effeithiau'r opsiynau dan sylw yn yr ardal benodol.

Wrth ad-drefnu ysgolion mewn ardaloedd ble mae'r Iaith Gymraeg yn dal ei thir mae sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol o fewn yr ardaloedd hynny yn fodd o gyfrannu tuag at sefydlogi a chadarnhau sefyllfa'r iaith.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd gan arddel y Gymraeg. Anelir at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a manteision dwyieithrwydd, gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno pamffled sy'n trosglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog: '**Dwy iaith…dwywaith y dewis'**. Byddwn yn parhau i geisio ysbrydoli ein plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian.

Byddwn yn llunio a datblygu pecyn ymwybyddiaeth/seicoleg iaith i sicrhau bod gweithlu ysgolion yn deall eu rôl a'u cyfranogiad yn llawn wrth weithredu gweledigaeth yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru i annog a chefnogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y pecyn adnoddau ymwybyddiaeth iaith a'r hyfforddiant seicoleg iaith yn arfogi'r gweithlu ar sut i ddelio efo sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol.

Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol.

Mae pedair canolfan gynradd ac un canolfan uwchradd. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog.

Rhwng 2005 a Hydref 2016 mae cyfanswm o 1628 o ddisgyblion cynradd a 510 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.

O ran y cynradd, bydd uchafswm o 16 / 18 disgybl yn mynychu pob canolfan am gwrs o 12 wythnos, ar wahân i Ddolgellau, sydd â lle i 8 disgybl yn unig. Cynigir y ddarpariaeth yn bennaf i ddisgyblion 7 - 11 oed (CA2) sydd yn hwyrddyfodiaid i'r Sir. Bydd y disgyblion yn mynychu cwrs dwys am dymor er mwyn eu trochi a'u paratoi ar gyfer derbyn rhan helaeth o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan ddychwelant i'w hysgolion. Cwrs amlgyfrwng a thrawsgwricwlaidd ydyw a seilia'r athrawon eu cynllun gwaith ar hwn. Mae'r cynllun yn galluogi'r disgyblion i ddychwelyd i ysgolion eu hardal a dilyn eu cwricwlwm yn y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan Uwchradd yn cynnig lle i uchafswm o 16 disgybl ar gyfer cyfnodau o 8 wythnos gan ganolbwyntio ar ddisgyblion B7 i ddechrau ac yna B8 gyda niferoedd bychain o B9 pe bai lle, yn ôl y meini prawf penodol a osodwyd. Byddir yn trochi'r disgyblion hyn gyda chwrs dwys yn y Gymraeg mewn cyfnod byr, gan gynnig arlwy o bynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal.

Byddwn yn parhau i sicrhau dilyniant priodol i ddisgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgolion drwy gynnig ôl-ofal i bob disgybl. Mae'r Canolfannau Iaith yn darparu gwasanaeth ôl- ofal mewn partneriaeth â'r ysgolion er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd arwyddocaol yn y Gymraeg. Datblygiad diweddar yw penodi Athrawes Ôl Ofal Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd sy'n gyfrifol am addysgu'r Gymraeg i grwpiau o hwyrddyfodiad gan ymwneud yn benodol â sicrhau gweithrediad y cynllun ôl-ofal i

ddisgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith.

Datblygiad cyffrous diweddar yw'r Project ar gyfer Cymathu Rhieni, dan nawdd Y Llywodraeth. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r ddarpariaeth a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhieni. Yn ogystal, mae'r Canolfannau Iaith mewn cyswllt parhaus gyda 'Cymraeg i Oedolion' (CiO) o ran hyrwyddo'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig.

Er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth yma ymhellach, mae gwefan penodol ar gyfer y Canolfannau Iaith yn weithredol ers Ionawr 2017.

**Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Ein sefyllfa bresennol a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)

| Sefyllfa gyfredol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 83.7% | 84.4% | 84.9% | 85.7% |

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn:

- Sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.
- Gwella dilyniant yn CA3 er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.
- Pob ysgol i ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu er mwyn sicrhau parhad neu welliant yng ngharfan ieithyddol ar lefel disgyblion unigol.
- Cryfhau ymhellach rôl y Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd a'r Cydlynwyr Iaith Uwchradd o ran cynllunio ieithyddol a chynllunio dilyniant.

Datganiad cefnogol:

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn.

Gwelir bod gwahaniaeth yn y nifer y plant a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 6 (97.9%), ac yna y nifer ym mlwyddyn 9 (83.7%).

Mae'r % sydd yn parhau â'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA3 yn dda. Gwelwyd cynnydd o 2% i 83.2% yn 2015, a chynnydd pellach o 0.5% i 83.7% yn 2016 yn y canran y disgyblion a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf.

Fodd bynnag, mae'n ddymuniad i gynyddu'r % trwy ddylanwadu ar arferion mewn un ysgol sydd yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y disgyblion nad ydynt yn cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae trafodaethau ynglŷn â sut orau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr arferion hyn yn parhau ac yn datblygu.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r ysgol i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol, gan adeiladu ar yr arferion da hynny sydd eisoes wedi eu hyrwyddo a'u sefydlu gan yr ysgol ei hun yn ddiweddar. Byddwn, ar y cyd â'r ysgol, yn llunio Cynllun Gweithredu gyda chamau gweithredu, targedau penodol, terfynau amser a meini prawf gwerthuso ar gyfer ymestyn canran y disgyblion sy'n dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 a 4 ac yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae'r % sydd yn sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn ffigwr cadarnhaol iawn. Mae'r % sydd yn llwyddo i ennill gradd A*-C hefyd yn dda. Rhagwelir fodd bynnag bydd gwella dilyniant yn CA3 yn cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf. Disgwylir i ffrwyth y trafodaethau y cyfeirir ati uchod ddylanwadu yn gadarnhaol ar hynny.

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Maent yn ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd i drafod materion yn ymwneud â dilyniant CA2 a CA3, gan gynnwys tracio disgyblion unigol yn ôl y carfanau iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei le o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch. Byddwn yn datblygu a chryfhau ymhellach eu rôl o ran cynllunio ieithyddol a chynllunio dilyniant.

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu ar faes Addysg Gymraeg gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau yr Awdurdod er mwyn craffu ar:

- Polisi Iaith yr Awdurdod
- Y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a Phobl Ifanc (y cyswllt efo Gwaith Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd)

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu ei hunan yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater cyn cloi gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella cysondeb gweithredu'r Polisi. Yn eu plith mae'r argymhelliad canlynol:

*'Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei bod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.'*

Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni Astudiaeth mewn perthynas â'r argymhelliad yma. Mae'n golygu archwilio dogfennaeth berthnasol gan Gyngor Sir Gwynedd a Llywodraeth Cymru, cyfweld â staff yn yr ysgolion a rhoi sylw i unrhyw ddata a gwybodaeth gysylltiedig. Ffrwyth yr Astudiaeth fydd cynhyrchu adroddiad yn cynnwys casgliadau ac argymhellion.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Sefyllfa gyfredol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 79.4% | 81.2% | 84% | 86% |

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg

| Sefyllfa gyfredol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 69.4% | 71.2% | 73.3% | 74.9% |

Ein hamcanion i gyflawni'r deilliant hwn:

- Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau cydweithredol.
- Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg neu'r ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiadau allanol.
- Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy yn caniatau mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4.
- Sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol cydweithredol a ariennir trwy grant Rhwydwaith 14-19 ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau]
- Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol y cyrsiau a ddarperir.
- Monitro data cofrestriadau ar gyfer arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg o bob sefydliad (yn cynnwys cyrsiau partneriaeth Alwedigaethol yn y Colegau). Gosod Targedau Cynnydd i bob sefydliad / cwrs partneriaeth.
- Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5.

Datganiad cefnogol:

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Mae hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicrheir dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.

Disgwylir i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog.

Mae 5 o'r 7 cwrs galwedigaethol cydweithredol ôl 16 a ddarperir gan Goleg Menai ar gyfer ysgolion ardal Arfon yn cael eu cynnig i'r dysgwyr fel darpariaeth ddwyieithog. Darperir nifer o'r cyrsiau cydweithredol rhwng ysgolion hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Parheir i ddatblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Tîm e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19 a gyllidir trwy arian grant 14-19. Hyrwyddir y defnydd o'r adnoddau hyn trwy Grŵp Defnyddwyr e-ddysgu sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol a Choleg Addysg Bellach ar draws Gwynedd, Môn a Gogledd Cymru a thrwy raglen hyfforddiant blynyddol. Trwy gydweithrediad rhanbarthol darperir hyfforddiant dwyieithog ar y defnydd o'r adnoddau hyn.

Mae gwaith penodol wedi cwblhau yn ystod 2015-16 gyda grant penodol Llywodraeth

Cymru er mwyn paratoi adnoddau rhyngweithiol e-ddysgu er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle / astudiaethau ôl-16 mewn sectorau Adeiladwaith, Busnes, Lletygarwch ac Iechyd a Gofal / Gofal Plant. Bydd yr adnoddau yn cael eu lleoli ar Safle we Consortiwm Ôl-16, Colegau AB, HWB.

Arweinir y gwaith cynllunio strategol Ôl-16 yng nghyd-destun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Un o'r prif ffrydiau gwaith fydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Rhoddir sylw hefyd i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.

Elfen arall o waith y Consortiwm Ôl-16 fydd adnabod cyfleoedd yn yr economi ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith.

Comisiynwyd darn o waith gan Gweriniaith a Phrifysgol Bangor er mwyn ceisio cael darlun eglur o'r nifer o gyrsiau Cymraeg yn unig, Saesneg yn unig a chyrsiau dwyieithog sy'n cael eu cynnal yn ardal gweithredol y Consortiwm. Ble mae'r cyrsiau yn cael eu dynodi yn rhai dwyieithog mae dadansoddiad manwl o'r ganran a ddysgir drwy'r Gymraeg wedi ei wneud. Mae pob sefydliad wedi derbyn adroddiad ar wahân ac mae adroddiad sirol wedi ei rannu â swyddogion. Bydd yr un data yn cael ei chasglu'n flynyddol i bwrpas monitro.

Bydd gwaith penodol yn ddigwydd o ran datblygu systemau a gweithdrefnau i fesur y defnydd o'r Gymraeg mewn Addysg Ôl-16. Prif bwrpas y gwaith fydd canfod faint o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 yn ardal weithredol y Consortiwm.

**Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A* i C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf:

| Sefyllfa gyfredol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 76.3% | 77.2% | 78.1% | 79% |

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (Gweler Atodiad 1 ar gyfer y data):

- Cynyddu % disgyblion :
  - Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Lefel 2+/Deilliant 5+)
  - disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg
  - disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg
  - disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg
- Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg
- Parhau gyda'r gwaith arloesol yng Ngwynedd a phri ffrydio gwaith y Siarter Iaith yng Ngwynedd i waith craidd y Cyngor. Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Iaith i fod yn rhaglen genedlaethol fydd yn rhan allweddol o fframwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu
- Datblygu'r Siarter Iaith Uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Amcan Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE yw sicrhau bod gan pob disgybl ym mhob ysgol o fewn y rhanbarth y sgiliau iaith a rhif maent eu hangen i lwyddo ar hyd eu taith trwy'r ysgol, ac i ennill y cymwysterau fydd yn eu galluogi i chwarae eu rhan yn llawn mewn byd

gwaith a chymdeithas wedi hynny.

Mae GwE wedi penodi Ymgynghorydd Her Cymraeg [rôl rhan amser] i dargedu'r pwnc yn yr Uwchradd. Bydd yn llunio cynllun gweithredu fydd yn rhoi sylw penodol i godi safonau a gwella sgiliau uwch yn y Gymraeg/Cymraeg ail iaith a chynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n ennill cymwysterau Safon Uwch. O weithredu'r cynllun yma, bydd:

- Fforwm broffesiynol wedi'i sefydlu ar gyfer rhannau arferion da a chyflwyno arweiniad i benaethiaid adran ar Uned 1, 2 a 3
- Pob ysgol yn hyderus wrth gyflwyno'r fanyleb.
- Pob ysgol yn gyson o ran asesu tasgau dan reolaeth llafar
- Pob ysgol yn gyson wrth asesu safon cwestiynau estynedig Darllen Uned 2 a 3.
- Portffolio traws sirol o waith dysgwyr A*/A wedi'i greu ac ar gael yn ganolog
- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n ennill A*/A gyda hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer sy'n sefyll Safon Uwch
- Cytuno gyda'r sefydliadau ar dargedau priodol parthed cynyddu niferoedd sy'n sefyll Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith a % llwyddiant A*-C yn y pynciau hynny.

Bydd GwE hefyd yn parhau i dargedu gweithredu gyda lleiafrif o ysgolion uwchradd ble mae pryder am berfformiad y Gymraeg.

Mae'r % sy'n cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnodau allweddol a'r % sy'n cyrraedd y lefelau/graddau digwyliedig yn dda. Serch hynny, mae angen parhau i geisio gwella a chodi safonau yn y Gymraeg ac yn y cyd-destun hwn bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Rhagwelir hefyd bydd cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran sicrhau cyd-ddealltwriaeth o lefelau /asesiadau a pharatoi proffiliau ar gyfer eu hachredu yn gymorth i'r cyfeiriad hwn.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gydag adrannau Cymraeg yr ysgolion drwy fforwm y Cydlynwyr Iaith Uwchradd yn ogystal â Grŵp Strategol y Penaethiaid gan roi sylw i ostwng y niferoedd nad ydynt yn sefyll y naill na'r llall er mwyn sicrhau nad oes un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg. Parheir hefyd i geisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch wedi iddynt lwyddo yn TGAU drwy bwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac yn bwnc i'w astudio ymhellach, yn ogystal â cheisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – hyn drwy ddulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol.

Yn y cynradd, bydd sesiynau arweiniol yn cael eu cynnal i arweinwyr fydd yn edrych ar addysgu ac asesu. Drwy'r Ymgynghorydd Her cyswllt, bydd yr Awdurdod yn monitro effeithiolrwydd gweithredu dilynol gan yr ysgol. Bydd rhaglen hyfforddiant i arweinwyr ym maes llythrennedd hefyd yn cael ei gyflwyno gyda ffocws ar wella ansawdd profiadau a dysgu/addysgu yn y maes.

Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yn ysgolion cynradd Gwynedd mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.

Nod syml y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, cael y plant i siarad Cymraeg.

Mae'r Siarter Iaith yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Mae hyfforddiant trylwyr wedi'i roi i'r cyd-gysylltwyr iaith fel eu bod yn unigolion cymwys i gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r ysgolion yn eu dalgylchoedd. O dan eu gofal, mae'r gwaith o fonitro ac achredu'r Siarter yn cael ei weithredu. Byddwn yn parhau i ddatblygu eu rôl gan eu bod yn elfen allweddol o ran sicrhau bod negesuon a gwybodaeth perthnasol ynglŷn â chyflawni nod y wobr Aur yn cael ei rhannu a'i rhaeadru'n effeithiol. Byddwn yn

parhau i gynnal cyfarfodydd tymhorol i rannu'r wybodaeth mwyaf diweddar efo'r cyd-gysylltwyr iaith.

Mae elfen gryf o hyfforddi yn dod yn sgil yr ymweliadau achredu a chyfle euraid i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ysgolion a'i gilydd. Cwblheir adroddiad ar gyrhaeddiad a datblygiad pob ysgol yn erbyn gofynion y gwobrau arian ac aur yn flynyddol. Byddwn yn parhau gyda'r broses achredu ar ddiwedd y flwyddyn addysgol gan graffu ar ddata'r gwe iaith er mwyn profi bod effaith cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r Siarter Iaith.

Mae dogfen arweiniol wedi'i llunio sy'n cynnwys yr holl strategaethau, gweithgareddau a'r cynlluniau bwriadus sydd wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith ymysg ysgolion 'blaengar' Gwynedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ddogfen yma wrth i'r Siarter ddatblygu a'i phrif ffrydio i waith craidd y Cyngor

Mae cydweithio clos rhwng partneriaethau'n parhau a digwyddiadau penodol wedi'u cynnal ar y cyd efo S4C, Yr Urdd a Cwmni Da er mwyn dwyn effaith gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith. Bydd y cyd weithio yma efo'r sefydliadau yn parhau.

Fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn benodol i Gyngor Gwynedd gydweithio â nhw i ledaenu arferion y Siarter Iaith ledled Cymru erbyn 2019. Mae hyn yn dilyn llwyddiant ysgubol cynllun peilot yn 2015-16 rhwng Gwynedd a Llywodraeth Cymru a welodd ysgolion holl awdurdodau rhanbarth y Gogledd yn llwyddo i gyrraedd gwobr efydd y Siarter.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Iaith i fod yn rhaglen genedlaethol yn rhan allweddol o fframwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc. Bydd y fframwaith yn mynd i'r afael ag ymyraethau o fewn tri phrif faes, sef y gyfundrefn addysgol, y gymuned, a newid ymddygiad ieithyddol. Bydd ffocws ar geisio plethu'r tri maes hwn yn agosach at ei gilydd, yn ogystal â cheisio plethu polisi addysg a pholisi defnydd iaith cyffredinol yn agosach. Bydd y fframwaith hwn yn bwydo i mewn i ddatblygiad strategaeth hir dymor newydd ar gyfer y Gymraeg o 2017 ymlaen.

Yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter yng Ngwynedd, gofynnwyd i gael defnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth ar ran LlC ar gyfer cyflawni 4 prif elfen, sef y gwaith o godi ymwybyddiaeth, cynnal cynhadledd hyfforddiant, rhannu gwybodaeth a lletya'r holiadur ar-lein, a'r broses achredu ac yn darparu cefnogaeth i siroedd eraill i osod seiliau cadarn mewn lle i weithredu'r Siarter Iaith, gan roi arweiniad a darparu arferion da ar holl agweddau ymarferol y Siarter.

O ran sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith Cynradd, a pharhau gyda chreu'r galw a gwella sgiliau iaith Gymraeg ein pobl ifanc, byddwn yn datblygu prosiect fydd yn rhoi arweiniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Bydd y Strategaeth Uwchradd yn ymgorffori argymhellion adroddiad Cwmni Trywydd (adroddiad a gomisiynwyd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd), Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd, Strategaeth Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Bydd rôl a llais y bobl ifanc yn allweddol ynghyd â gwasanaethau ieuenctid a rhanddeiliad allweddol. Bydd y Strategaeth yn gosod disgwyliadau ac arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol

Byddwn yn

- Cefnogi'r 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith.

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

Ein hamcanion i gyflawni'r deilliant hwn:

- Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
- Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.
- Gweithredu'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.

Datganiad cefnogol:

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd.

Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o AAA.

Cytunwyd i fabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gyffredin fydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Mae nodau ac amcanion yr holl ystod o wasanaethau wedi eu nodi'n glir o fewn y Strategaeth. Daeth yr angen am Strategaeth newydd yn dilyn dadansoddi profiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd monitro, asesu'r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r ddarpariaeth newydd a byddwn yn parhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n gwbl ddwyieithog.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn:

- Drwy'r Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd (grŵp strategol trawsawdurdod), parhau i gydweithio efo Prifysgol Bangor o ran sicrhau bod y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.
- Cryfhau proffil ieithyddol staff mewn ysgolion penodol.
- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Parhau i dilyn polisi yr Awdurdod wrth hysbysebu drwy ddatgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.

Datganiad cefnogol:

Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.

Byddwn yn sicrhau bod staff sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog hyd at safon addysgu. Fe arweinir

grŵp strategol trawsawdurdod - Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd - gan Wynedd sydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg, cyfrwng Cymraeg ac adeiladu cynhwysedd ymhob Awdurdod. Mae'r grŵp hwn yn ddylanwadol o safbwynt y drafodaeth ar gontinwwm iaith gan ddylanwadu'n sylweddol ar statws Y Gymraeg ymhob ysgol, a sefydliadau cyn-ysgol, ac ansawdd ei haddysgu fel iaith a'r defnydd pellach ohoni fel cyfrwng dysgu. Un o'r meysydd sy'n cael sylw gan y Rhwydwaith yw'r Cynllun Sabothol. Derbynnir gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael ar gyfer athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr a chynorthwywyr dosbarth sydd eisiau gwella eu Cymraeg a magu hyder yn yr iaith. Ceir trafodaethau ar sut orau i ddatblygu a gloywi iaith ymarferwyr addysg, mamiaith ac ail iaith, er mwyn iddyn nhw deimlo'n hyderus i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion. Yn ogystal, byddwn yn gwneud pob ymdrech i annog mwy o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg drwy 'Cymraeg i Oedolion' ac mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel.

Byddwn yn cynnal a hyrwyddo Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny. Mae'n amserol i ailymweld â thechnegau addysgu a dysgu dwyieithog ar hyn o bryd tra bo Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau sylfaenol i addysgu a dysgu yng Nghymru ac yn datblygu'r cwricwlwm newydd *Cwricwlwm am Oe*s yn seiliedig ar ***'Dyfodol Llwyddiannus'*** yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru a gyflawnwyd gan yr Athro Graham Donaldson ym mis Chwefror 2015. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) yn pennu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y disgwylir i ddisgyblion fod yn fedrus ynddynt ar draws y cwricwlwm ac mae gofyn i athrawon integreiddio llythrennedd (a rhifedd) yn eu haddysgu, beth bynnag y bo'r pwnc. Mae cymhwysedd digidol hefyd yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd a bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) yn amlinellu'r sgiliau a gwybodaeth y disgwylir i ddysgwyr ei datblygu. Mae polisïau yn y meysydd hyn yn allweddol i ddatblygiad ysgol. Mae hefyd yn bwysig fod technegau addysgu a dysgu dwyieithog yn cyd-gerdded â'r datblygiadau hyn oll a bod y staff wedi'u trwytho yn y sgiliau sydd eu hangen.

O ran y Blynyddoedd Cynnar, yn dilyn sefydlu grŵp tasg yn y cyfnod diwethaf i adnabod y gweithlu sydd angen gwella eu sgiliau yn yr Iaith Gymraeg, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ac erbyn hyn mae PACEY ar y cyd â'r Swyddog Hunaniaith wedi dosbarthu pecynnau gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg hefyd. Byddwn hefyd yn datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.

Mae GwE, mewn cydweithrediad gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi cynllunio a pharatoi Rhaglen Arweinyddiaeth traws sector cynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr y Rhanbarth sydd yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i feithrin cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei botensial arweinyddiaeth ei hun a photensial arweinyddiaeth ymarferwyr eraill. Anogir staff i fanteisio ar y cyfleoedd datblygu proffesiynol effeithiol hyn.

Llofnodwyd: Dyddiad: 12 Ionawr 2017…..…

Arwyn Ll Thomas
Pennaeth Addysg